CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 30 Tachwedd, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Y Cynghorydd J.M. Norman (Is-gadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, R. Crowley, O. Griffiths ac L.O. Rowlands

Cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) ac H. Smith (Barnardos).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG –

CYTUNWYD – Dylid gohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A.M. Collins.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

CYTUNWYD – Dylid cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG 2020/21 (GGM) –

CYTUNWYD –

(1) Dylid nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg 2020/21.

(2) Dylid anfon sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r awgrym o sefydlu noson wobrwyo i wirfoddolwyr er mwyn cydnabod ac amlygu gwaith gwirfoddol ym Mro Morgannwg yn ffurfiol i'r Cabinet i'w hystyried.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o farn y Pwyllgor ynghylch pwysigrwydd dweud diolch yn ffurfiol i wirfoddolwyr a chydnabod eu gwaith caled, a bod yr awgrym o sefydlu noson wobrwyo yn cael ei gynnig i'w ystyried.